| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **15 MEDI 2014** |
| **TEITL:** | **FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG 2014/15 – ADRAN GWARCHOD Y CYHOEDD** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

Yn yr atodiad i'r adroddiad hwn, ceir y ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd 2014/15 y mae angen i'r Pwyllgor eu cymeradwyo.

## CRYNODEB AC EGLURHAD AM Y NEWIDIADAU

Gellir gweld o'r tabl atodol fod llawer o'r ffioedd yn aros yn sefydlog. Mae'r ffioedd hyn yn statudol ac felly nid oes unrhyw reolaeth leol dros godi'r ffioedd. Mae'r ffioedd statudol yn cynnwys ffioedd sy'n berthnasol i Ddeddf Gamblo 2005 a Deddf Trwyddedu 2003.

Lle mae deddfwriaeth yn caniatáu disgresiwn lleol o safbwynt gosod lefel ffioedd; mae asesiad yn cael ei wneud yn flynyddol bellach o gostau'r gwasanaethau hyn.

Fe fu i'r Pwyllgor hwn gymeradwyo amrywio costau rhai ffioedd yn 2013/14 er pwrpas symud tuag at adennill costau'r gwasanaethau perthnasol.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, argymhellir codi'r ffioedd lle mae disgresiwn i wneud hynny o 2.5% i gyd - fynd a lefel chwyddiant yn unig.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r ffioedd a gynigir gan Bennaeth yr Adran Rheoleiddio.